

Iechyd a Diogelwch



A. Jones 2015

Cynnwys y Bennod

1. Cyflwyniad i Iechyd a Diogelwch
2. Iechyd a Diogelwch Cyffredinol
 - 2.1 Rhaglenni Iechyd a Diogelwch
 - 2.2 Asesu Risg
 - 2.3 Cynlluniau Argyfwng

3. Iechyd a Diogelwch Personol

- 3.1 Gweithio gyda Gwrthrychau
 - i. Risgiau
 - ii. Trin
- 3.2 Cynnal a Chadw
- 3.3 Cyfarpar Diogelu Personol

4. Iechyd a Diogelwch Gwrthrychau

- 4.1 Amgylchedd Storio ac Arddangos
- 4.2 Rheoliadau Trin

5. Cyngor Pellach

6. Cyfeiriadau ac Adnoddau I. Atodiadau



1. Cyflwyniad i Iechyd a Diogelwch

Mae canllawiau iechyd a diogelwch yn hanfodol mewn unrhyw amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i bawb drwy leihau anafiadau a salwch galwedigaethol, atal casgliadau ac asedau rhag cael eu colli, a chyfyngu ar effeithiau amgylcheddol. Mae'n arbennig o bwysig mewn amgueddfa, gan fod yn rhaid ystyried diogelwch staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr lawn cymaint â diogelwch y casgliadau. Bydd deall iechyd a diogelwch cyffredinol, personol a gwrthrychau yn sicrhau bod yr amgueddfa yn gweithredu'n effeithlon a gwrthrychau'n cael eu trin yn ddiogel.

2. Ystyriaethau Cyffredinol

2.1 Rhaglenni Iechyd a Diogelwch

Er mwyn cyflawni nodau iechyd a diogelwch ac i gydymffurfio â deddfwriaeth, mae amgueddfeydd yn pennu protocolau a gweithdrefnau gweithio diogel. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw rheoli risg sy'n gysylltiedig â gwaith a goruchwylio gweithrediad gweithdrefnau iechyd a diogelwch, er bod yna elfen o gyfrifoldeb ar y staff hefyd. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys asesiadau risg, archwiliadau, trefniadau adrodd am ddamweiniadau ac anafiadau ac ymchwiliadau, cynlluniau argyfwng, hyfforddiant a gwerthuso.

2.2 Asesu Risg

Mae adnabod peryglon yn allweddol er mwyn gallu chyfyngu ar risg a sicrhau rhaglen iechyd a diogelwch lwyddiannus. Caiff gorchwyl penodol ei adolygu a'i

ddosbarthu drwy restru'r prif dasgau, unrhyw anafiadau a allai ddigwydd, risgiau o gyflawni'r dasg mewn perthynas â pha mor fynych y cyflawnir y dasg a'i hyd yn erbyn difrifoldeb yr anaf, ac yn olaf, rhestru ffyrdd o leihau'r risg drwy weithredu unrhyw fesurau diogelwch. Mae'r asesiad risg a geir o ganlyniad i hynny yn dynodi risgiau tasgau sy'n gysylltiedig â gwaith a sut i'w lliniaru. Disgwylir i gyflogeion ddarllen yr asesiadau, deall y risgiau a ffyrdd o'u lleihau, a gweithredu'r mesurau rheoli a awgrymwyd wrth gyflawni'r dasg. Mae enghreifftiau o ffurflenni asesu risg i'w gweld yn www.hse.gov.uk.

Dylai pob cyflogai a gwirfoddolwr newydd gael hyfforddiant cynefino iechyd a diogelwch er mwyn dod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r cynllun argyfwng wrth gefn.

Trychinebau



2.3 Cynlluniau Argyfwng

Rhan fawr o iechyd a diogelwch yw cynlluniau argyfwng effeithiol (a elwir hefyd yn gynlluniau i atal/rheoli trychinebau, cynlluniau wrth gefn, a chynllunio/rheoli parhad busnes). Ymhlith yr argyfyngau sy'n cael sylw yn y categori hwn mae tân, llifogydd, trychinebau naturiol, methiant pŵer, gollyngiadau cemegol, gollyngiadau nwyon gwenwynig, argyfyngau meddygol, ac ati. Gall y cynllun argyfwng gynnwys y canlynol:

- Asesiad risg o fygythiad
- Hyfforddiant
- Trefniadau gwacáu ar gyfer personél ac ymwelwyr
- Rhestr gyswllt mewn argyfwng
- Diogelwch
- Cynlluniau gweithredu ar gyfer argyfyngau penodol gan gynnwys pennu rolau
- Achub casgliadau, cofnodion a chyfarpar gwerthfawr
- Cyfathrebu a dogfennaeth
- Adfer

3. Iechyd a Diogelwch Personol

3.1 Gweithio gyda Gwrthrychau

i. Risgiau

Gall peryglon sy'n ymwneud â gwrthrychau penodol gynnwys triniaethau cadwraeth/adfer blaenorol, a allai gynnwys cemegau y gwyddom bellach eu bod yn niweidiol, megis arsenig a mercwri. Cafodd rhai gwrthrychau gwyddorau naturiol eu trin â sylweddau gwenwynig yn y gorffennol i atal rhywogaethau o blâu, megis casgliadau herbariwm, tacsidermi ac entomoleg. Yn amlach na pheidio ni chofnodwyd triniaethau blaenorol o'r fath ac yn achos llawer o gasgliadau, ni wyddom a gawsant eu trin ai peidio. Oni bai bod profion yn cael eu cynnal i ddangos yn glir nad oes unrhyw risg, dilynir yr egwyddor ragofalus, a dylid ystyried y gallai unrhyw gasgliadau o'r fath fod yn beryglus. Dylid cyflawni unrhyw waith trin, arddangos neu gadwraeth yn ôl cyngor cadwraethydd.

ii. Trin

Caiff casgliadau eu trin am amryw o resymau, yn cynnwys eu symud rhwng orielau neu rhwng y storfa a'r oriel, derbyn neu anfon gwrthrychau, digwyddiadau arbennig, megis arddangosfeydd, cadwraeth, neu ffotograffiaeth, neu i greu ffurfiau newydd ar fynediad. Gall symud gwrthrychau heb asesu a lleihau risg arwain at anaf difrifol i'r sawl sy'n eu trin yn ogystal ag i'r gwrthrych. Gofalwch fod gwrthrychau yn cael eu trin yn ddiogel drwy asesu risg y dasg, y llwyth, yr amgylchedd, a gallu'r unigolyn i gyflawni'r dasg.

Ar ôl asesu, mae'n bwysig lleihau'r risg. Gallai hyn gynnwys gwella'r cynllun llawr a gwneud y gwaith o symud yn fwy diogel, er enghraifft drwy agor drysau, defnyddio esgynyddion yn lle grisiau, sicrhau llwybrau cerdded clir, rhannu llwyth yn rhannau llai sy'n fwy hydrin, profi pwysau'r gwrthrych cyn ei godi, defnyddio trolï ar gyfer gwrthrychau mwy o faint ac yn y blaen.

3.1 Cyfarpar Diogelu Personol

Dylid diogelu staff a gwirfoddolwyr rhag peryglon drwy ddarparu dillad priodol a chyfarpar diogelu personol. Dylai pawb sy'n gwneud gwaith yn yr amgueddfa gael y canlynol i ddiogelu eu hunain rhag niwed:

- Crysau a siwmperi gyda llewys tynn
- Trowsusau
- Esgidiau addas, gwrth-lithr
- Clymu gwallt hir neu ei glipio'n ôl o'r llygaid
- Ffedog/cot labordy wrth ymdrin â chemegau, a chyflenwadau glanhau i ddiogelu'r croen a dillad rhag niwed
- Menig nitril wrth ddefnyddio cyflenwadau glanhau neu drin cemegau
- Mwgwd wyneb os oes llwch neu nwyon niweidiol yn bresennol (yn dibynnu ar yr asesiad risg, FFP1 i FFP3 neu anadlydd)
- Sbectol ddiogelwch ar gyfer diogelu'r llygaid
- Diogelu'r clyw wrth ddefnyddio offer swnllyd

Yn ogystal, rhaid deall cyfarwyddiadau mewn llawlyfrau, protocolau a gweithdrefnau cyn defnyddio unrhyw gyfarpar.

3.2 Cynnal a chadw

Mae gwaith cynnal a chadw da yn hanfodol ar gyfer diogelwch staff, gwirfoddolwyr, ymwelwyr a chasgliadau. Rhaid cadw gofodau gweithio'n lân ac yn daclus, ac yn glir o fwyd a diod. Mae'n bwysig cadw llwybrau cerdded yn glir o beryglon baglu. Rhaid cadw drysau, cypyrddau a droriau ar gau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, a gwrthio cadeiriau dan fyrddau a glanhau pob arwyneb gweithio yn rheolaidd. Dylid cadw sbesimenau a gwrthrychau mewn storfeydd neu orielau, neu mewn labordy os gwneir gwaith cadwraethol arnynt, nid mewn swyddfeydd neu ar goridau.

Y dechneg iawn ar gyfer codi a chario



3.3 ii. Y ffordd iawn o godi blychau: cadwch eich cefn yn syth, plygwch y pengliniau, daliwch gorneli cyferbyn y boc, a chodwch gyda'ch coesau.

4. Diogelwch Gwrthrychau

4.1 Risg

Ymhlith y risgiau i wrthrychau yn amgylchedd yr amgueddfa, mae sioc cyswllt (taro'r llawr neu wrthrych arall yn sydyn), dirgryniad wrth gael eu trin, newidiadau yn yr amgylchedd, diffyg amddiffyniad, diffyg diogelwch a diffyg gofal (gweler CCI 2015).

4.2 Amgylcheddau Storio ac Arddangos

Er mwyn sicrhau bod y casgliadau yn goroesi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, rhaid deall y gofynion penodol ar gyfer eu storio a'u harddangos. Ymhlith y pethau i'w hystyried mae tymheredd, lleithder cymharol, llygredd, golau, plâu, a niwed ffisegol. I sicrhau'r amgylcheddau storio ac arddangos gorau ar gyfer casgliadau penodol,

gweler y taflenni eraill yn y gyfres hon.

4.3 Rheoliadau Trin

Y ffordd orau o sicrhau nad yw gwrthrych yn cael difrod ffisegol o'i gamdrafod yw trin gwrthrychau cyn lleied ag y bo modd. Ffyrdd eraill o leihau risg yw trefnu storffeydd gwrthrychau yn dda, gan sicrhau bod labeli priodol ar flychau a silffoedd, atal ymwelwyr a phersonél heb eu hyfforddi rhag cyffwrdd gwrthrychau oni bai bod y gwrthrychau wedi'u nodi fel rhai addas i gael eu trin, a sicrhau mesurau diogelwch digonol ar gyfer gwrthrychau sy'n cael eu harddangos.

Os yw'r gwrthrych i gael ei symud, mae'n bwysig meddwl yn ofalus ymlaen llaw sut i symud y gwrthrych ac i ble y mae angen ei symud er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o rwystrau ar y llwybr. Hefyd, gwnewch yn berffaith siŵr nad ydych yn gwisgo gemwaith neu fathodynau neu'n cario beiros mewn poced ac ati a allai beri difrod i wrthrychau wrth i chi eu cludo. Cofiwch gynnal y gwrthrych cymaint â phosibl, a pheidio â'i godi drwy afael mewn mannau gwan megis rhannau sydd wedi cael triniaeth yn flaenorol, ymylon, dolenni, breichiau, coesau, pennau, ac ati. Mae angen dwy law i gynnal gwaelod a phrif gorff y gwrthrych; golyga hyn y bydd angen o leiaf un person ychwanegol i agor drysau os ydych yn cario gwrthrych, ond os oes angen cludo gwrthrych argymhellir eich bod yn defnyddio trolï. Cadwch at ogwydd naturiol y gwrthrych a pheidwch byth â chario mwy nag un gwrthrych ar y tro. Os bydd angen, gofynnwch am help os yw'r gwrthrych yn rhy anhylaw i un person ei gludo. Hefyd, dylech bob amser wisgo menig wrth drin gwrthrychau.

5. Gwybodaeth Ychwanegol

Lluniwyd y daflen wybodaeth hon gan fyfyrwyr [Cadwraeth Prifysgol Caerdydd](#) fel rhan o brosiect 'Cysylltu Casgliadau Gwyddorau Naturiol yng Nghymru' Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriellau Celf Cymru, a ariennir gan [Gronfa Gasgliadau Esmee Fairbairn](#) ac a gefnogir gan [Is-adran Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau Llywodraeth Cymru](#) ac [Amgueddfa Cymru](#). Gallwch gael gwybodaeth am y prosiect ar wefan [Amgueddfeydd ac Oriellau Celf Cymru](#).

Mae'r daflen hon yn rhoi cyflwyniad byr i'r pwnc. Os ydych angen cyngor manwl ar ofal casgliadau amgueddfeydd, gofynnwch i'ch cadwraethydd rhanbarthol neu [Gofrestr Cadwraeth](#) y Sefydliad Cadwraeth.

6. Cyfeiriadau, Cyhoeddiadau, Adnoddau

AIC. *Personal Protective Equipment (PPE)*. 2014. [http://www.conservation-wiki.com/wiki/Personal_Protective_Equipment_\(PPE\)](http://www.conservation-wiki.com/wiki/Personal_Protective_Equipment_(PPE))

CCI. 2015. Preventive Conservation and Agents of Deterioration. <https://www.cci-icc.gc.ca/resources-ressources/agentsofdeterioration-agentsdedeterioration/index-eng.aspx>. Lawrlwythwyd 16/11/2015.

Ertel, Jr., D, Hawks, C, Hinkamp, D, Goldberg, L, Makos, K, McCann, M, a Silence, P. 2010. *Health and Safety for Museum Professionals*. Butts, S. Rheolwr olygydd. Efrog Newydd: Society for the Preservation of Natural History Collections.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. <http://www.hse.gov.uk/index.htm>

Y Labordy Iechyd a Diogelwch. <http://www.hsl.gov.uk/internal/licensing-information.aspx>

Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol. 2014. <http://www.iosh.co.uk/>

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: www.hse.gov.uk
Cyngorwyr ar Ddiogelwch Ymbelydrol: www.hse.gov.uk/radiation/rpnews/rpa.htm
Cyngor ar Asbestos: www.hse.gov.uk/asbestos/faq.htm

Cronfa ddata Earth Lab (Amgueddfa Astudiaethau Natur): <http://www.nhm.ac.uk/nature-online/earth/rock-minerals/earthlab/>
Cronfa ddata Mwynau: <http://www.museum-wales.ac.uk/mineralogy/database/>